



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Arholiad Aelodaeth Gyflawn 4 Ebrill 2009
Papur 1: Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Adroddiad y Prif Arholwr

Safon Aelodaeth Gyflawn

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Nifer yr ymgeiswyr: 11
Llwyddo: 4
Methu: 7

Gosodwyd dau ddarn o ryw 300 o eiriau yr un a oedd yn ceisio adlewyrchu cyweiriau lled wahanol. Roedd y naill ddarn yn disgrifio'r arfer traddodiadol o doi tai pysgotwyr arfordir Gogledd Jutland â gwymon; roedd y llall yn trafod effaith twyll ar adnoddau yn y Gwasanaeth Iechyd.

Roedd y ddau ddarn yn sicr yn heriol a'r bwriad oedd gorfodi'r ymgeiswyr i feddwl o ddifri sut y dylid cyfleu rhai o olyniadau lletchwith (ond cyfarwydd) y gwreiddiol. Bwriad yr ail ddarn oedd ceisio adlewyrchu gorchwylion a oedd yn nes at yr hyn y gallai cyfieithydd profiadol eu disgwyl yn ei waith bob dydd. Rhaid, ar y cyfan, ganmol safon llawer o'r gwaith a gyflwynwyd. Roedd pedwar ymgeisydd wedi cyflwyno gwaith a oedd yn dangos gallu datblygedig.

Gwaith llwyddiannus ac aflwyddiannus

Dyma rai o'r elfennau a barodd anhawster i rai ymgeiswyr:

Grym amserau'r ferf:

Off the east coast of North Jutland are houses with seaweed roofs...the seaweed was collected from the seashore by horse and cart and, once dried, bundled and twisted into thick ropes...
fe'i casglwyd...gan geffyl a throl...fe'i bwndelwyd
[sef 'fe'i cesglid...fe'i bwndelid']

They would regularly stand atop their homes with a telescope, looking out across the flat, then-treeless island for ships caught in storms.

Byddant yn sefyll ar ben eu cartrefi'n aml â thelesgop...

[sef 'byddent yn sefyll...']

While the majority of people who work and use the NHS are honest, there is a minority who will seek to defraud the NHS of its valuable resources.

...lleiafrif a geisiai dwyllo'r GIG o'i adnoddau gwerthfawr.

[sef 'sy'n ceisio twyllo'r GIG']

Dewis ffurfiau nad ydynt yn gweddu i gywair y darn:

mae yna dai efo toeau o wymon

y mae to gwymon yn...

tyf y gwymon...

gwllâu

Dewis cenedl anghywir i'r enw:

dwy fetr o hyd

[sef 'dau fetr o hyd']

Heb feistroli cystrawen 'yn' traethiadol:

It was collected from the seashore...and twisted into thick ropes

Fe'i casglwyd o lan y môr...ei fwndeli a'i droi i mewn i raffau trwchus

[sef 'Fe'i cesglid o lan y môr...ei fwndeli a'i droi yn rhaffau trwchus...']

Fe'i cesglid o lan y môr gan gert a cheffyl ac unwaith roedd wedi'i sychu, fe'i rhwymid mewn sypiau..

[sef 'yn sypiau']

Dewis ffurf fypwyol:

a habitat for wildflowers and grasses

cynefin i flodau gwyllt a glaswelltau

Crëodd deintydd gannodd o gleifion ffug...

GIC

[sef 'GIG']

Dewis bôn berfol ansafonol:

Difwyd llawer o'r gwymon...

[sef 'Difawyd...']

Dwynodd bresgripsiynau o feddygfa

[sef 'Dygodd...']

Rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus:

The seaweed (Zostera marina), grows up to two metres or more long. It was collected from the seashore by horse and cart and, once dried, bundled and twisted into thick ropes that were then woven through a home's rafters to form a roof a metre thick which formed a habitat for wildflowers and grasses. Today only 20 of the houses survive.

...ac ar ôl ei sychu, ei glymu'n fwndeli a'i droelli'n rhaffau trwchus cyn ei wau drwy'r distiau i greu to a oedd yn fetr o drwch. Datblygai'r to yn gynefin i flodau gwyllt a gwahanol fathau o wair. Dim ond 20 o'r tai sydd ar ôl erbyn heddiw.

A finance director of an NHS trust falsified accounts in order to meet government targets. The man, who was also the trust's deputy chief executive, was caught after he faked official valuation reports related to the sale of trust-owned land and properties.

Canfuwyd bod cyfarwyddwr cyllid un ymddiriedolaeth GIG wedi ffugio cyfrifon er mwyn cyrraedd targedau'r llywodraeth. Cafodd y dyn, a oedd hefyd yn ddirprwy brif weithredwr yr ymddiriedolaeth, ei ddal ar ôl iddo ffugio adroddiadau prisiadau a oedd yn gysylltiedig â gwerthu tir ac eiddo'r ymddiriedolaeth.

Yng ngwaith nifer o'r ymgeiswyr cafwyd enghreifftiau da o ad-drefnu brawddegau i amlygu'r ystyr drwy greu dwy frawddeg lle ceid un yn Saesneg. Dyma'r math o hyder a ddisgwylir ar lefel Aelodaeth Gyflawn.

Annerbyniol yw'r canlynol:

'un o'r achosion o dwyll mwyaf a welwyd yn y GIG'
'Caiff pob galwad eu delio gan staff hyfforddedig a'u hymchwilio'n broffesiynol.'
'Cafodd glaf dri phresgripsiwn...'
'a gafodd eu talu amdanynt'
'yr Arbenigwr Lleol Atal Twyll'
'Ffugiodd cyfarwyddwr cyllid ymddiriedolaeth GIG gyfrifon ffug er mwyn bodloni targedau'r llywodraeth.'
fyngaidd [sef 'ffyngaidd']
casglid [sef 'cesglid']
amcangyfririwyd [sef 'amcangyfrifwyd']

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darllen y gwaith sawl tro cyn ei gyflwyno, nid ochr yn ochr â'r Saesneg yn unig, ond dylid hefyd ystyried y darn a gyflwynir i'w arholi yn ddarn o ysgrifennu Cymraeg gwreiddiol.

Diolch i'r arholwyr am eu sylwadau manwl yn nodi'r llwyddiannau a'r anawsterau a gafodd yr ymgeiswyr. Diolch i staff y swyddfa am eu trefniadaeth effeithiol arferol ac am bob cefnogaeth.

**Prif Arholwr (o'r Saesneg i'r Gymraeg)
Mehefin 2009**